# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

Gorffennaf 2018

Annwyl Riant / Warcheidwad

Wrth i'r flwyddyn academaidd ddirwyn i ben hoffwn eich atgoffa y bydd adroddiad diwedd blwyddyn eich plentyn ar gael ar yr ap 'edulink' erbyn diwedd yr wythnos a dymunaf ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r Ysgol eto eleni. Mae eich presenoldeb ar nosweithiau rhieni yn wych, a'ch cefnogaeth i'ch plant yn nhermau eu cludo i weithgareddau a chlybiau o bob math a'ch cefnogaeth iddynt fedru mynychu llu o deithiau a phrofiadau allgyrsiol eraill yn wych. Diolch am sicrhau fod presenoldeb eich plentyn / plant yn dda iawn ac o ganlyniad mae'r ysgol wedi cyrraedd presenoldeb da eleni o 95.3%.

Bu'n flwyddyn brysur tu hwnt a bellach mae pawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol yn barod am wyliau haf. Bu sawl uchafbwynt yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y gwasanaeth Nadolig, cystadlaethau canwr a cherddor ifanc, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd lwyddiannus, sioe gerdd 'Sweeney Todd, llwyddiannau arbennig ein timau chwaraeon gan gynnwys tîm pêl-droed Blwyddyn 9 yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain yn Glasgow, alldeithiau Efydd, Arian ac Aur cynllun Dug Caeredin, casglu dros £15k ar gyfer amrywiaeth o elusennau gwahanol a llu o deithiau cofiadwy sydd wedi cynnig profiadau bywyd pwysig i'n disgyblion. Mae fy niolch yn fawr i'r staff sy'n gwirfoddoli i gynnig y profiadau hyn ac i'r holl ddisgyblion am fod yn barod i fynychu'r gweithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer.

Mae yna flwyddyn academaidd brysur arall yn ein hwynebu ym mis Medi a fe fydd nifer o wynebau newydd ar y staff a rhai wynebau cyfarwydd wedi ein gadael. Hoffwn ddiolch i'r aelodau staff canlynol am eu cyfraniad i fywyd yr Ysgol a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol: Dr. Nia Griffiths, Mr Josh Ward, Miss Rebecca Hewitt, Miss Hannah Jenkins, Miss Megan Williams, Mr Daniel Harris, Mr Dafydd Jones (Anogwr Dysgu), a'r Cynorthwywyr Dysgu: Mrs Ceri Canham, Mrs Janet Rees, Miss Lowri Morgan, Mr Gruff Ifor, Mr Hopcyn Mathews a Mr Alex Price.

Mae'n bleser cyhoeddi y bydd yr athrawon canlynol yn ymuno â'r Tîm Arwain ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn arwain projectau sy'n rhan o gynllun gwella'r Ysgol: Mr Aled James, Mrs Anna Foster Evans, Mr Paul Harris, Mrs Kathy James, Mr Aled Williams a Mrs Vicki Pitman.

Fe fydd nifer fawr o'n plant yn ei chael hi'n anodd ymarfer y Gymraeg yn ystod gwyliau'r haf a gofynnaf yn garedig i chi feddwl am ffyrdd o sicrhau fod eich plant yn cael mynediad i'r iaith dros yr haf er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais wrth ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi e.e. mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd ar ddechrau mis Awst.

Mae'r ysgol yn parhau i fod ag ethos gynhwysol gref ac yn ceisio sicrhau mynediad i ddisgyblion o bob cefndir i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cyllid ychwanegol ar gael i ysgolion yn ddibynnol ar niferoedd disgyblion sydd yn hawlio Prydau Ysgol am Ddim. Os oes ganddoch chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hawl eich plentyn i ginio rhad ac am ddim, yna mae croeso i chi gysylltu â Mrs Karen Salter yn yr ysgol am sgwrs.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes


Fe fyddwn yn sicrhau bod safonau gwisg pob disgybl yn gywir ym mis Medi, mae siwmperi gwddf 'v' wedi cymryd lle yr hwdi ac felly os oes angen ambell eitem o wisg ysgol newydd ar eich plentyn yna threfnwch ymweliad â siop YC Sports ar Heol Crwys neu Cowbridge Road East yn ystod y gwyliau.  Os yw eich plentyn yn awyddus i gael twll mewn clust yna yn ystod yr wythnosau cyntaf o'r gwyliau yw'r amser i wneud hynny gan nad ydym yn caniatáu gemwaith yn yr Ysgol.  Os yw eich plentyn am newid lliw ei g/wallt yna nid oes problem, cyn belled â'i fod yn liw gwallt naturiol.

Mae ein polisi defnydd o ffonau symudol un un clir; caniateir ffonau symudol mewn gwersi yn unig pan fo athro yn caniatau hynny ar gyfer gwaith ymchwil.  Os fydd disgybl yn defnyddio ei ffon heb awdurdod athro caiff y ffon ei gymryd a'i gadw'n ddiogel tan ddiwedd y dydd.

Fe fyddwn yn parhau i gau gatiau blaen yr ysgol yn ddyddiol rhwng 1515 a 1530 er mwyn lleihau faint o draffig sydd ar y safle ar adeg prysur tu hwnt ar ddiwedd y dydd.  Gofynnir yn garedig i rieni osgoi gyrru ar safle'r ysgol ar ddiwedd y dydd i gasglu eu plant ond yn hytrach i wneud trefniadau i gyfarfod i ffwrdd o'r safle.  Mae maes parcio'r ganolfan hamdden yn eithaf cyfleus ar gyfer y pwrpas hyn.

Rydym yn pryderu'n fawr am y nifer o ddisgyblion sy'n reidio beic i'r Ysgol heb helmed ddiogelwch. Allai ofyn i chi sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo helmed wrth seiclo i'r Ysgol yn mis Medi?

Wrth gloi hoffwn ddymuno gwyliau hapus a diogel i bawb.  Pob dymuniad da i'r rheiny sydd yn aros am eu canlyniadau arholiadau allanol ym mis Awst, fe fydd y canlyniadau yn fyw ar yr ap 'edulink' o 1100 ar fore dydd Iau, Awst 16 (UG a Safon Uwch), ac am 1100 ar ddydd Iau, Awst 23 (TGAU).  Bydd canlyniadau Safon Uwch ar gael i'w casglu o'r Ysgol am 0800 a TGAU (Bl 11) ar gael i'w casglu o'r Ysgol am 0900, ac am 0930 i ddisgyblion Bl 12 ac am 1000 i ddisgyblion Bl 10 ar y ddau ddyddiad. Edrychaf ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r ysgol yn ystod yr wythnos gyntaf o fis Medi.

**Hoffwn atgoffa pawb bod dydd Llun, Medi'r 3ydd yn ddiwrnod HMS, mai dim ond disgyblion Blynyddoedd 7, 10 a 12 fydd yn mynychu'r ysgol ar ddydd Mawrth, Medi'r 4ydd a bydd pawb arall yn dychwelyd i'r Ysgol ar ddydd Mercher, Medi'r 5ed.**

Yn gywir,

J.D. Hayes

Pennaeth

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

July 2018

Dear Parent / Guardian

As the academic year draws to a close I would like to remind you that your child's academic report will be available on the 'edulink' app by the end of the week. May I also thank you for your continued support throughout the year. Parental support of parent's evenings is exceptionally good and your willingness to support your children in attending a host of extra-curricular activities is excellent including allowing your children to attend educational visits. Our attendance of 95.3% is amongst the highest in Cardiff which is largely a parental responsibility which you evidently take extremely seriously. Thank you.

It has been a particularly busy year with some notable highlights, these include a memorable Christmas service, our production of Sweeney Todd and our annual young musician and young singer of the year competitions. We have again performed well on the sports fields, notably the success of our Year 9 football team in representing Wales at the British School's Championships in Glasgow and a large number of pupils have enjoyed a range of rewarding residential trips during the year including Bronze, Silver and Gold Duke of Edinburgh award expeditions. We also achieved success at the Urdd National Eisteddfod in Builth Wells. I am particularly proud of the fact that as a school community we have raised over £15k during the year for a variety of local, regional and national charities. I am indebted to my staff who arrange all these activities and to the pupils who participate in these fantastic opportunities.

The next academic year will bring its own unique set of challenges not least a new timetable in September! We will welcome several new members of staff, but it is with sadness that we say farewell to a few familiar faces. I would like to thank the following members of staff for their dedication to the school over the past years and wish them well as they pursue their careers elsewhere: Dr. Nia Griffiths, Mr Josh Ward, Miss Rebecca Hewitt, Miss Hannah Jenkins, Miss Megan Williams, Mr Daniel Harris, Mr Dafydd Jones (Learning Coach), and the following Learning Support Assistants: Mrs Ceri Canham, Mrs Janet Rees, Miss Lowri Morgan, Mr Gruff Ifor, Mr Hopcyn Mathews and Mr Alex Price.

I am delighted that Mr Aled James, Mr Paul Harris, Mrs Anna Foster Evans, Mrs Kathy James, Mr Aled Williams and Mrs Vicki Pitman will also be joining the Leadership team next year and leading important strands in the school's improvement plan.

Many of our pupils will find it difficult to practice the use of the Welsh language over the summer holidays and I would ask parents kindly to think of ways to gain access to the language over the summer in order that their children are not at a disadvantage when school resumes in September e.g. attending the National Eisteddfod in Cardiff Bay from August 3rd – 11th.

Our focus on 'inclusion' is as strong as ever and we make every effort to support every pupil with all their learning needs. Additional funding for schools is dependent upon the number of pupils in receipt of free school meals and I would encourage any parent or guardian who is un-clear about the criteria for the grant to contact Mrs Karen Salter at the school for advice.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

We will ensure in September that every pupil has the correct school uniform, As you are aware we have phased out our school hoodie and replaced it with a smarter 'v' neck jumper, maroon for KS3 and black for KS4. if you need to purchase additional items of clothing please visit YC Sports on Crwys Rd or Cowbridge Road East during the holidays. If your child is keen to have their ears pierced, please could that be arranged for the beginning of the holidays as we have a strict no jewellery policy, and if your child would like a different hair colour, please could you ensure that the new colour is a 'natural' hair colour!

We have tightened our policy on the use of mobile phones and phones will only be allowed in class if a teacher authorises it for learning purposes, otherwise they should remain switched off. Mobile phones will be confiscated until the end of the school day if they are used without authorisation during the day.

We will continue to close the main school gates between 1515 and 1530 in order to prevent traffic from coming on site at our busiest time. Parents are requested to make arrangemets to collect children off-site such as at the leisure center car park which is quite convenient.

I am extremely concerned that so many of our cyclists are putting themselves at risk in not wearing a cycle helmet and would encourage you to ensure that your child wears a helmet when cycling to school from September.

I would like to wish everyone a safe and happy summer holiday. Best wishes to all those pupils awaiting final exam results in August, the results will be released on the edulink app at 1100 on Thursday, August 16th (AS and A Levels) and at 1100 on Thursday, August 16th (GCSE). Exam results can be collected from school on both mornings, at 0800 for pupils in Year 13 and at 0900 for pupils in Year 11 and at 1000 for pupils in Years 10 and at 0930 for pupils in Year 12. I look forward to welcoming everyone back to school during the first week in September.

**I would like to remind everyone that Monday, September 3rd is an INSET day, we will welcome pupils from Years 7, 10 and 12 on Tuesday, September 4th and everybody else will return to school on Wednesday, September 5th.**

Yours sincerely,

J.D. Hayes

Headteacher